**TGAU**

3010N10-1

S24-3010N10-1

**DYDD GWENER, 14 MEHEFIN 2024 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 1: Barddoniaeth
## HAEN SYLFAENOL

1 awr 15 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni allwch ddefnyddio geiriaduron.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**1.** Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
**Yn y cerddi, mae'r beirdd yn mynd â ni i fyd perthynas rhwng dau berson.**

**Cymharwch** y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** a/neu'n **wahanol**.
Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:
  - Pa fath o ddarlun o berthynas mae'r ddau fardd yn ei ddisgrifio i ni?
  - Ydy'r ddau fardd yn sôn am geisio dod o hyd i berthynas mewn ffyrdd gwahanol?
  - Meddyliwch beth yw'r neges yn y ddwy gerdd.
- edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am **o leiaf bedair nodwedd arddull / mesur** a dweud pam maen nhw'n effeithiol
- nodi pa **un** o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

**Y Ferch wrth y Bar yng Nghlwb Ifor**

Yn fan hyn, aeafau'n ôl,
yn ddifaddau o feddwol,
fe'i gwelais; estynnais stôl.

Ordrais beint ar draws y bar
a'i gwylio, yn llawn galar,
yn ei sgert trwy'r mwg sigâr.

Yn ei llygaid tanbaid hi
roedd 'na gefnfor o stori,
a hyder a direidi

yn eu llawnder i'n herio,
trwy ryw wyrth, y dôi ein tro
ond a dal i'w lled-wylio...

Ym mrad yr edrychiadau,
yn sŵn ein dawns ni ein dau,
am ei swyn mi es innau

yn rhy ddedwydd freuddwydiol,
yn ddifaddau o feddwol,
yn fan hyn, aeafau'n ôl.

*Rhys Iorwerth*

**Y Ddau Draeth**

Dim ond ddwy filltir dros y môr
mae *traeth sy'n denu'r galon,
ac rwy'n ei weld dan chwerthin haul,
ond a yw'r gweld yn ddigon?

Rwy'n eistedd ar fy nhraeth fy hun
yn edrych dros y tonnau,
ac yn dymuno mynd ryw ddydd
at draeth dy chwerthin dithau.

Yn sydyn, fe ddaw'r niwl yn dew
a'r gwynt fel llais yn gwrthod,
ond gwn daw eto siawns ryw ddydd,
a byddaf innau'n barod.

Fe nofiaf y ddwy filltir hir
at draeth fy holl freuddwydion
heb wrando ar lais y gwynt na'r glaw,
a chyrraedd fydd yn ddigon.

*Ceri Dafydd*

**traeth – glan y môr*

**DIWEDD Y PAPUR**